Parhad o dudalen 3

fel bod modd i Syr Ifan ei theithio, neu a oedd gan Syr Ifan daflunydd oedd yn gallu chwarae stribyn sain, yn ogystal â'r system gramoffon?

Nid unrhyw hen ffilm sydd ar goll yma, ond dogfen glyweled Gymreig o gyfnod pan oedd y fath beth yn brin iawn ac arloesol. Os nad yw'r ffilm wedi goroesi yn unman, y gorau y gellir disgwyl fyddai gallu cofnodi sylwadau rhai o'r rheini a welodd y cynnyrch, neu a oedd rywfodd yn gysylltiedig â'r cynhyrchu.

Mae tipyn o waith ditectif ar ôl, mae'n amlwg, ac os oes gan y darllenydd unrhyw wybodaeth o gwbl am y ffilm, fe fyddai'r awdur wrth ei fodd yn cael clywed gennych!

Pe bai'r ffilm yn dod i'r fei, rwy'n siŵr y byddai cartref diogel iddi yn yr Archif Ffilm yn Aberystwyth, ac fe fyddai'r Llyfrgell Genedlaethol ei hun yn falch o dderbyn unrhyw dystiolaeth yn ei chylch, i'w gadw gyda'r trac sain a phapurau a chyhoeddiadau'r Gymdeithas ddaionus a hynod hon.

YN EISIAU

Lead Mining in Wales, W. J. Lewis (tua £20)
Hwiangerddi (Cyfres y Fil, tua £1.50)
Siôn Cent (Cyfres y Fil, tua £2.50)
Gwilym Tudur, Siop y Pethe, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1NP. (01970) 617120

ATGOF AM DDYDDIAU YSGOL YR ESGOB RICHARD DAVIES (1506?-1581)

gan R. Geraint Gruffydd

YN ei ragymadrodd maith a diddorol i *Destament Newydd* William Salesbury (1567) y mae gan yr Esgob Richard Davies atgof gogleisiol am ei ddyddiau yn yr ysgol. Sôn y mae sut yr oedd Eglwys Rufain wedi llurgunio'r Deg Gorchymyn drwy adael allan yr ail orchymyn, yn erbyn addoli delwau, a hollti'r degfed yn ddau. Fel hyn y dywed Richard Davies (yr wyf yn diweddaru a safoni ei orgraff):

> Hefyd pan oeddwn i ysgolhaig, fel hyn y dysgai'r offeiriaid y Deg Gorchymyn:
>
> *Vnum crede Deum, ne iure vana per ipsum,*
> *Sabatha sanctifices, habeas in honore parentes.*
> *Ne sis occisor, fur, moechus, testis iniquus,*
> *Alterius nuptam, non rem cupies alienam.*
>
> Dyna adael allan yr ail gorchymyn Duw yn gyfan, rhag cael cywilydd am eu gwaith yn amddiffyn delwau, os goddefid i'r bobl wybod a gweled fod gorchymyn Duw yn erbyn delwau.

Gellir brasgyfieithu'r pennill Lladin a ddyfynnir gan Davies fel a ganlyn:

Cred yn yr un Duw, na thwng bethau ofer iddo,
Sancteiddia'r Sabath, boed iti anrhydeddu rhieni.
Na foed iti fod yn llofrudd, yn lleidr, yn odinebwr, yn dyst anghyfiawn,
Na chwennych wraig briod cymydog, (nac) eiddo person arall.

Rhieni Richard Davies oedd 'Syr' Dafydd ap Gronw a Sioned ferch Dafydd, ill dau'n bersonau o dras. Curad y Gyffin ger Conwy oedd 'Syr' Dafydd pan aned Richard, o bosibl tua'r flwyddyn 1506 (ailbriododd ei weddw â Robert ap Maredudd o Lanfair Talhaearn). Y mae'n fwy na thebyg mai at ei addysg elfennol y mae Davies yn cyfeirio yn y darn a ddyfynnwyd uchod, ac fe ymddengys iddo dderbyn honno yn lleol ar law yr 'offeiriaid' a oedd yn cadw ysgol — nid gan ei dad felly. Ar y llaw arall, nid yw'n gwbl amhosibl nad ar gychwyn ei addysg ramadegol y dysgodd Davies y pennill a ddyfynna, o bosib yn Nhŷ'r Brodyr Dominicanaidd ym Mangor, neu — yn llai tebygol — mewn ysgol ramadeg ynglŷn â'r Eglwys Gadeiriol yn yr un lle. (Eto, os gan y Brodyr yr addysgwyd ef, rhyfedd braidd ei fod yn cyfeirio atynt fel 'offeiriaid'.)

Cwestiwn na ellais ei ddatrys hyd yn hyn yw o ba lyfr y dysgodd yr 'offeiriaid' y pennill uchod i Richard Davies. Ymddangosodd y pennill yn brintiedig mewn cyfres o Lyfrau Plygain Saesneg a Lladin a ymddangosodd yn Ffrainc (Paris a Rouen) o tua 1535 ymlaen, ond y mae hynny'n llawer rhy ddiweddar i fod yn ffynhonnell y fersiwn a fu'n rhan o addysg Davies. Eto y mae'n eglur fod y pennill yn llawer hŷn na 1535, gan i'r Athro Curt Bühler ei ddarganfod yn ysgrifenedig (nid yn brintiedig) mewn llawysgrifau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn un o lyfrau William Caxton (1488?) ac mewn Llyfr Plygain a gyhoeddwyd yn 1524. Fe fyddai'n dra dymunol petai un o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn dod ar ei draws yn argraffedig mewn Llyfr Plygain a gyhoeddwyd tua 1512, dyweder. Byddai gennym syniad go dda wedyn am un o leiaf o lyfrau ysgol yr Esgob Richard Davies.

Rhai llyfrau ac erthyglau a ddefnyddiwyd:

P. C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400-1500* (Aberystwyth, 1983), 1212.

Curt F. Bühler, 'At thy golg first eut of the hous vlysse the saynge thus,' *Studies in the Renaissance*, vi (1959), 223-25.

W. P. Griffiths, 'Some Passing Thoughts on the Early History of Friars School, Bangor,' *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, xlix (1988), 117-49.

E. Hoskins, *Horae Beatae Mariae Virginis* (London, 1901), 162 (hefyd 167; ond cymharer STC[2]).

G. H. Hughes, *Rhagymadroddion 1547-1659* (Caerdydd, 1951), 34-5.

G. Williams. *Bywyd ac Amserau'r Esgob Richard Davies* (Caerdydd, 1953), *passim*.

SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 STRYD FAWR, BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD LL41 3AA

Ffôn: (01766) 831802

1. *Gronoviana, Gwaith y Parch Goronwy Owen*, 1860.... £8.00
2. Rees, B.: *Hanes Eglwysi y Bedyddwyr yn Blaenywaun*, 1899.... £4.00
3. Parry, W. J.: *Eglwys Bethesda, Arfon*, 1900.... £4.00
4. Jones, Simon, B.: *Hanes Peniel a Bwlchycorn*, 1938.. £3.00
5. Jones, John Gwilym: *Y Goeden Eirin*, 1946.... £5.00
6. Jones, Hugh: *Hanes Wesleyaeth Gymreig*, 4 cyfrol, 1911-13.... £18.00
7. Gruffydd, W. J.: *Math Vab Mathonwy*, 1928.... £4.50
8. Roberts, Kate: *Deian a Loli*, d.d.... £5.00
9. Jones, J. E.: *Llyfr Garddio*, 1969.... £4.00
10. Lewis, Saunders: *Blodeuwedd*, 1948.... £10.00
11. *Canwyll y Cymru*, Llanymddyfri, 1841.... £8.50
12. *Y Ddraig Goch*, Cyf. 1-6, 1926-32, wedi eu rhwymo £70.00
13. Myrddin Fardd: *Gleanings from God's Acre*, 1903.... £30.00
14. Richards, W.: *The Welsh Non Conformists Memorial or Cambro British Biography*, 1820.... £42.00
15. *'Hoffnant'. Cronicl Penmorfa 1860-1900*, 1915.... £8.00
16. Roberts, Gomer M.: *Methodistiaeth fy Mro*, 1938.... £5.00
17. Morgans, D.: *Music and Musicians of Merthyr and District*, 1922.... £15.00
18. Lloyd-Jones, J.: *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon*, 1928 £12.00
19. Hughes, H. a North, H. L.: *The Old Churches of Snowdonia*, 1924.... £24.00
20. Jones, L.: *Y Wladva Gymreig yn Ne Amerig*, 1898.... £42.00
21. Davies, J. D.: *Emynwyr Gwynedd*, 1905.... £4.50
22. Jones, J. T.: *Geiriadur Bywgraffyddol*, 1867, dwy gyfrol £22.00
23. Hughes, H. a North, H. L.: *The Old Cottages of Snowdonia*, 1979.... £10.00
24. James J.: *Welsh Names of Places*, 1869.... £15.00
25. Williams, W.: *Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis*, 1892.... £20.00
26. Mills, J. a Mills, R.: *Y Cerddor Eglwysig*, 1846.... £10.00
27. Jones, I.: *Hanes Annibyniaeth yn Sir Gaernarfon*, 1897 £6.00
28. Williams, R. T. (Trebor Môn): *Newmarket: Ei Hynafiaethau, Cofiannau a'i Hanes Presennol*, 1921... £15.00
29. Davies, Cledlyn D. R. a Z. S.: *Hanes Plwyf Llanwenog*, 1939.... £24.00

MÂN LYFRYNNAU A PHAMFFLEDI

30. Davies, W. A.: *Ty'nywern fy Ieuenctyd*, d.d., 31 tud. £4.00
31. Evans, T. V.: *Clydach a'r Cylch*, 1901, 66 tud.... £9.50
32. Aneirin ap Talfan: *Dyddiau'r Ceiliog Rhedyn*, 15 tud. £8.00
33. Edwards, Thomas: *Bannau y Byd*, 1839 (John Jones, Llanrwst).... £6.00
34. Williams, W.: *Eglwysi Annibynol ym Môn*, 1863, 76 tud £12.00
35. Jones, M.: *Hanes Trefriw*, 1879, 48 tud.... £9.50
36. Williams, R. T.: *Derwyddiaeth yn Ynys Môn*, 1890, 120 tud, dim clawr blaen.... £8.00

CODIR YN YCHWANEGOL AM GLUDIAD